

Ysglas

Rhifyn 4 Gwanwyn 2006 | Issue 4 Spring 2006



"Nôl yng nghalon y gymuned"

"Back in the heart of the community"

One force for Wales? Let us know

The Police Authority want to know what you think about plans to swallow the North Wales Police into an all-Wales police force.

Home Secretary Charles Clarke is imposing sweeping changes to the structure of the police service in England and Wales.

He says that larger forces would have the resources to make policing more efficient and more effective against serious crime and terrorism.

So, he wants to get rid of the four forces in Wales and make them into one.

As North Wales Police Authority have voted against this threat, there is now a statutory, four month period for objections to be lodged with the Home Office.

During that time, the Police Authority will be seeking the views of the public and elected representatives from across North Wales, including MPs, AMs and councillors.

In addition, they will be canvassing the opinions of a wide range of minority groups representing different interests,

together with the network of Community Safety Partnerships in the region.

Morag Webb, Chair of the Authority's Consultation Committee, said: "I think it's absolutely essential that we consult as wide a range of people and organisations as possible.

"We will have to put together very strong arguments and evidence to support our stand against an all-Wales force and, so, need to discuss the details with the people that count.

"We also need to put together arguments justifying suggestions for an alternative approach."

Councillor Ian Roberts, Chair of the Authority, said: "The performance of North Wales Police is extremely impressive - burglary in

the region is at its lowest level for over 30 years and robbery is down by 25 per cent."

"Our only priority is what is best for the people of North Wales and we are determined to safeguard the success of one of the finest crime-fighting operations in England and Wales."



Morag Webb, Chair of North Wales Police Authority

What you can do

If you would like to have your say on the restructuring proposals please write to John Hughes-Jones, Consultation and Partnership Officer, North Wales Police Authority, Glan y Don, Colwyn Bay, LL29 8AW, or send an email to him at: John.Hughes-Jones2@nthwales.pnn.police.uk



Cadw cysylltiad ym Mhorthmadog Keeping in touch at Porthmadog

Un heddlu i Gymru – rhowch eich barn

Mae Awdurdod yr Heddlu eisïau gwybod beth yw eich barn chi am gynlluniau i lyncu Heddlu'r Gogledd i mewn i un llw Cymreig.

Yn ôl yr Ysgrifennydd Cartref, Charles Clarke, byddai heddluoedd mawr yn fwy effeithiol wrth ymladd troseddau difrifol a rhyngwladol.

Felly, mae o blaid cael gwared ar bedwar heddlu rhanbarthol Cymru a chael un cenedlaethol yn eu lle.

Gan fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi pleidleisio yn erbyn hyn, mae yna gyfnod swyddogol o bedwar mis o ymgynghori.

Mae'r Awdurdod eisïau cael eich barn chi a'ch

cynrychiolwyr, yn ASau, ACau a chynghorwyr, ynghyd â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a chynrychiolwyr grwpiau a mudiadau o bob math.

"Mae'n holl bwysig ein bod yn ymgynghori gyda chymaint o amrywiaeth ag sy'n bosibl o bobl a chyrrff," meddai Morag Webb, Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghori'r Awdurdod.

"Bydd rhaid i ni roi dadleuon cryf at ei gilydd yn erbyn uno ac o blaid argymhellion eraill." Mae angen diogelu record Heddlu'r Gogledd, meddai Cadeirydd yr Awdurdod, Ian Roberts, sy'n dweud mai dyma un o'r "arfau gorau yn erbyn troseddau trwy Gymru a Lloegr i gyd".

Rhowch eich barn

Os ydych chi am roi eich barn ar y cynlluniau i uno'r heddluoedd, ysgrifennwch at John Hughes-Jones, Swyddog Ymgynghori a Phartneriaeth, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, Glan y Don, Bae Colwyn, LL29 8AW neu anfonwch e-bost ato ar John.Hughes-Jones2@nthwales.pnn.police.uk

Ymgyrch ffyrdd yn llwyddiant mawr

Ymgyrch Heddlu Gogledd Cymru i glirio troseddau'r ar y ffyrdd oedd y fwyaf llwyddiannus o'i bath erioed yng Nghymru a Lloegr.

Cafodd Ymgyrch Debar ei threfnu o dan ddeddf newydd a ddaeth i rym yn niwedd 2005 ac mae disgwyl y bydd yr un math o ymgyrchoedd yn cael eu cynnal yn y dyfodol ar hyd a lled gwledydd Prydain.

Erbyn diwedd yr ymgyrch a barhaodd trwy fis Ionawr, roedd bron 1700 o geir wedi cael eu cipio a 133 o bobl wedi eu harestio am wahanol droseddau. Roedd mwy na 350 o geir wedi cael eu dinistrio, ac mae'r rhif yn dal i godi.

Roedd yr ymgyrch ar y cyd gyda chanolfan drwyddedau'r DVLA a'r Bwro Yswirwyr Cerbydau ac yn defnyddio offer i

adnabod rhifau cofrestru. Y nod oedd dal gyrwyr oedd heb drwyddedau ac yswiriant – a dyna'r bobl, yn aml, sy'n troseddu mewn ffyrdd eraill hefyd.

"Roedd yn llwyddiant ysgubol," meddai'r Dirprwy Brif Gwnstabl, Clive Wolfendale. "Mae pobl sydd mewn ceir heb dreth nac yswiriant yn aml yn rhan o droseddau mwy difrifol. Trwy daclo un broblem, gallwn helpu i ddatrys y llall.

"Mae'r ymgyrch wedi atgoffa pob gyrrwr ei bod yn erbyn y gyfraith i yrru cerbyd heb y papurau iawn. Fydd y ceir sydd wedi eu cipio ddim yn cael eu defnyddio gan neb bellach – gan gynnwys troseddau'r difrifol."

Manylion yr ymgyrch – tudalen 7

Road campaign breaks all records

North Wales Police's crackdown on vehicle crime was the most successful campaign of its kind in the UK.

Taking advantage of new laws passed last year, the same methods could now be used all over England and Wales.

As well as working with the DVLA licensing centre and the Motor Insurers Bureau to catch cars and drivers without tax, licences and insurance, the aim is to catch serious offenders who use

the roads to carry out their crimes.

Almost 1700 cars were seized, 133 people were arrested for various offences during the month-long campaign in January. Almost 350 cars had been crushed by early February.

"People in untaxed and uninsured vehicles are often involved in more serious crime," said Deputy Chief Constable, Clive Wolfendale. "By tackling one problem, we can help solve the other."

Details of the campaign – page 7



Ymgyrch Debar ar waith Debar in action

Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
North Wales Police Authority
gorau camp cadw

Bully behind bars
Carcharu dyn cas

Clod am ddelio'n ddoeth
Praise for diligence

Gorsaf drawiadol ym Mangor
New station at Bangor

4

4

8

Golygyddol

Dewch at y teulu

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Heddlu'r Gogledd wedi torri nifer y troseddau yn yr ardal yn ogystal â bod ymhlith yr heddluoedd gorau yng Nghymru a Lloegr o ran canran datrys troseddau. Ond, "nid da lle gellir gwel, ac mae gwaith ei angen o hyd i leihau'r nifer o droseddau ymhellach, i ddelio gydag ofn trosedd yn ein cymunedau ac i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae nifer fawr o'n swyddogion yn delio efo llu o alwadau brys a digwyddiadau eraill, yn ogystal ag ymchwilio i droseddau. Yn ychwanegol at y gwasanaethau yma, ryden ni wedi ceisio datblygu ein Plismona Cymunedol drwy benodi Rheolwyr Rhawd, Swyddogion Cefnogi Cymuned a Swyddogion Cyswllt Ysgolion.

Yn ddiweddar, penodwyd Rhingyll Plismona Cymunedol i bob ardal, er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu plismona cymunedol ymhellach.

I roi gwasanaeth da ac i ennyn hyder ymysg y gymuned, mae'n rhaid i blismona fod yn effeithiol ac yn weladwy, ac mae'n rhaid i swyddogion fod yn gyfarwydd i'r gymuned ac yn hawdd cysylltu â nhw. Mae gwaith i'w wneud o hyd i gyflawni hyn ac ryden ni'n cymryd nifer o gamau penodol at hynny.

Er mwyn cryfhau ein cysylltiad â'r gymuned, mae'r heddlu'n cynnal pwyllgorau plismona yn y cymunedau. Mae'r Rheolwyr Rhawd lleol yn trafod problemau gydag aelodau'r cyhoedd ac yn cytuno ar gynllun gweithredu i ddatrys materion sydd yn peri pryder. Mi fyddan nhw wedyn yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor. Mae dros gant o bwyllgorau o'r fath yn cael eu cynnal yn y Rhanbarth Gorllewinol yn unig. Un ffordd arall o gryfhau'r cysylltiad â'r gymuned ydi ehangu'r teulu plismona ac mae'r heddlu'n

ceisio gwneud hyn mewn pedair ffordd benodol.

Yn gyntaf, ryden ni'n cyflwyno ceisiadau i'r Swyddfa Gartref am arian i gyflogi mwy o Swyddogion Cefnogi Cymuned. Mae'r rhain i'w gweld yn eu lifrai glas yn delio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn gweithio gyda phartneriaid a mudiadau cymunedol ac yn cynnig cyngor atal trosedd.

Yn ail, mae gynnon ni Gynllun Achredu Diogelwch Cymunedol lle gall y Prif Gwnstabl roi pwerau ychwanegol i Wardeiniaid Cymdogaeth, i Wardeiniaid Stryd yr awdurdodau lleol, i Wardeiniaid Cymdeithasau Tai ac Ysbytai, i Reolwyr Canolfannau Chwaraeon, Wardeiniaid Cefn Gwlad, Gofalwyr Meysydd Parcio a staff diogelwch preifat mewn canolfannau siopa i'w helpu i fod yn fwy effeithiol yn eu rolau perthnasol. Mae'r pwerau yma'n cynnwys cyflwyno hysbysiadau cosb benodol am daflu sbwriel ac am faw cŵn a graffiti ac yn rhoi'r hawl i gymryd alcohol a sigarêts oddi ar bobl ifanc ac yn y blaen.

Yn drydydd ryden ni'n ceisio cynyddu nifer y Swyddogion Gwirfoddol. Mae strwythur yr Heddlu bellach yn fwy hyblyg ac mae Swyddogion Gwirfoddol yn gallu gweithio mewn rôl benodol efo'r Rheolwyr Rhawd. Mi allan nhw hefyd roi amser i faterion sy'n achosi pryder yn eu cymunedau lleol.

Yn olaf, os nad yw'r unigolyn am weithio mewn lifrai, mae modd gwneud gwaith gwirfoddol o fewn y teulu plismona i helpu'r Rheolwr Rhawd lleol neu Swyddog Cefnogi Cymuned i wella'r gymuned.

Dyma'r ffyrdd y mae'r heddlu'n ceisio gwella'u gwasanaeth yn lleol. Mae yna wahoddiad i chi ymuno yn y gwaith.



Chief Superintendent Gareth Pritchard

Prif Uwcharolygydd Gareth Pritchard

Editorial

Join the policing family

During the past few years, North Wales Police have succeeded in cutting down the number of crimes committed in the area and are close to top of the league for the percentage of crimes solved in England and Wales. But it's always possible to do even better still and we need to work harder to cut crime further, to tackle the fear of crime in our communities and to lessen antisocial behaviour.

Many of our officers deal with a large number of emergency calls and other incidents, as well as investigating crime. But, in addition to these services, we are working to develop our Community Policing by appointing Beat Managers, Community Support Officers and School Liaison Officers.

Recently, we appointed a Community Policing Sergeant for each area, to concentrate on developing community policing even further.

In order to offer a good level of service and to gain the confidence of communities, policing must be effective and visible and officers must be well known in their communities and easy to contact. More work needs to be done to achieve this and we are taking several positive steps towards that goal.

In order to strengthen our links with the community, the police are holding community policing committees. Local Beat Managers discuss problems with members of the public and agree on an action plan to tackle matters of concern. They then report back to the committee. More than a hundred such committees are held in Western Division alone.

One other way of strengthening the relationship with the community is to extend the policing

family and we are trying to do this in four distinct ways.

Firstly, we are applying to the Home Office for funds to employ more Community Support Officers. These can be seen in their blue uniforms dealing with antisocial behaviour, working with partners and community organisations and offering crime-stopping advice.

Secondly, we have a Community Safety Accreditation Scheme which allows the Chief Constable to confer extra powers on Neighbourhood Wardens, local authority Street Wardens, Housing Association and Hospital Wardens, Sport Centre Managers, Countryside Wardens, Car Park Attendants and private security staff in shopping centres, allowing them to be more effective in their respective roles. These powers include handing out fixed penalty notices for throwing litter, soiling by dogs and graffiti and the right to confiscate alcohol and cigarettes off young people and so on.

Thirdly, we are trying to increase the number of Voluntary Officers. The police's structure is more flexible these days and Voluntary Officers can work in specific roles with Beat Managers. They can also dedicate time to matters which cause concern in their own local communities.

Lastly, if the individual does not want to be in uniform, there is other voluntary work to be done within the policing family, helping the local Beat Manager or the Community Support Officer to improve the community.

These are some of the ways in which the police are trying to improve their local services. You are invited to join in the work.



Clerc yn gwneud gwaith ditectif!

Mae safle hanesyddol wedi cael ei ddiogelu am byth oherwydd gwaith ditectif anarferol gan Clerc Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

Mae Kelvin Dent yn archeolegydd brwd yn ei amser hamdden ac, wrth ddilyn cwrs TGAU yn y pwnc, mi lwyddodd i fapio caer o Oes yr Haearn rhwng Bangor a Chaernarfon, a llwyddo i gael gradd A ar yr un pryd.

"Ro'n i'n mynd heibio'r safle ar fy ffordd i'r gwaith bob dydd," meddai Kelvin. "Ro'n i wedi sylwi ar gylch o dwmpathau bach mewn cae ac ro'n i'n siŵr mai hen safle hanesyddol o ryw fath oedd yno."

Cafodd ganiatâd i fynd ar y safle i fesur a gwneud lluniau a thynnu ffotograffau – er fod peth ymchwil wedi ei wneud a bod cofnodion yn gan y Comisiwn Henebion yn Aberystwyth, doedden

nhw ddim yn fanwl.

Ar ôl siarad efo haneswyr lleol, chwilio yn Archifau Gwynedd a chymharu'r safle efo rhai tebyg yn yr ardal, mi ddaeth yn glir fod y gaer yn filoedd o flynyddoedd oed. Y twmpathau bychain oedd y muriau amddiffyn ac roedd ffos o'u cwmpas.

Bellach, mae'r corff gwarchod hen adeiladau, Cadw, yn bwriadu cynnal arolwg ar y safle, ond mae Kelvin yn sicr fod yna ddirgelwch arall i'w ddatrys hefyd.

"Be sydd hyd yn oed yn fwy cyffrous ydi fod pobl leol yn bendant fod y safle wedi ei defnyddio gan y Rhufeiniad," meddai.

"Roedd ganddyn nhw ffordd yn mynd heibio i'r safle ac efallai eu bod wedi adeiladu twr pren yma i gadw golwg ar y lôn. Ond dyfalu pur ydi hynny - ar hyn o bryd!"



Clerk turns "detective"

Unusual detective work by the Clerk of the North Wales Police Authority will help protect an ancient historical site.

Kelvin Dent is also a keen archaeologist and, while gaining a GCSE grade A in in the subject, he uncovered more about an Iron Age site between Bangor and Caernarfon.

"I passed the site on my way to work everyday," said Kelvin. "I'd noticed a series of bumps in a round shape in a field and felt sure it was a

historical site of some type."

He was given permission to inspect the site, to make drawings and to take photographs, which were much more detailed than any earlier records.

After more research locally, it became clear that the small bumps were the ramparts of a fort. The historical buildings agency, Cadw, is now expected to survey the site.

"What's even more exciting is that local people are convinced that the site was used by the Romans," said Kelvin. "But that's speculation at the moment!"

Rhybudd nain tros alwadau ffug

Cafodd nain o ardal Y Bermo ei hanfon i'r carchar am bum mis am wneud galwadau 999 ffug ac mae Heddlu'r Gogledd wedi rhybuddio y byddan nhw'n gweithredu'n bendant yn erbyn pobl eraill sy'n gwneud yr un peth.

Roedd Gwen Mitchelmore, 51 oed, wedi gwneud 134 galwad ffug o fewn pedwar mis i'r heddlu, yr ambiwlans a'r gwasanaeth tân.

Yn ôl cadeirydd yr ynadon yn Nolgellau, roedd rhaid ei hanfon i'r carchar oherwydd ei bod yn peryglu galwadau brys go iawn.

Mae ymgyrch arbennig gan Heddlu'r Gogledd wedi arwain at arestio dau, gwysio neu roi rhybudd cosb benodol i 23, rhybuddio 18 arall ac atal gwasanaeth ffôn i 64 o bobl.

Mewn ychydig dros flwyddyn, hyd at fis Gorffennaf y llynedd, mi dderbyniodd Heddlu'r Gogledd 3160 o alwadau ffug ac, yn ôl yr Uwcharolygydd Ruth Purdie, mae hynny'n hollol annerbyniol.

"Mi fyddwn ni'n parhau i weithredu yn erbyn pobl sy'n camddefnyddio'r llinell 999. Mae hyn yn fater difrifol iawn, sy'n gallu effeithio ar allu'r gwasanaethau brys i ymateb."

Mae yna gyngor arbennig i rieni hefyd, i wneud yn siŵr eu bod wedi trafod defnydd o'r llinell 999 gan eu plant – mae cyfran uchel o'r galwadau ffug yn dod gan blant.

Gall pobl sy'n defnyddio ffoniau symudol ddefnyddio'r botwm 'lock' i wneud yn siŵr na fydd galwad frys yn digwydd yn ddamweiniol.

Warning on 999 abuse

People abusing the 999 emergency line have been warned to learn from the story of grandmother Gwen Mitchelmore from Barmouth who has been sent to prison for five months for making false emergency calls.

She was told by the chairman of magistrates at Dolgellau that her actions were putting true emergency calls at risk.


She is one of two people arrested in a special campaign by North Wales Police – 23 have been summonsed or given fixed penalty notices, 18 have been cautioned and 64 have had their phone service

disconnected.

"We will continue to identify and take positive action against individuals who misuse the 999 line," said Superintendent Ruth Purdie. "This is a very serious matter."

Parents have been advised to talk to their children about the dangers and mobile phone users should use the 'lock' facility to avoid accidental calls.

More cameras to cut crime in the Vale



Elwyn Edwards

The whole of Denbighshire should soon be a safer place thanks to a campaign to set up 38 new closed circuit television cameras in the area.

"I want people, especially the elderly, to feel safe in their homes at night," said Councillor Elwyn Edwards, Vice Chair of North Wales Police Authority.

He has put in a bid for £1.5 million to Denbighshire County Council for new cameras at St Asaph, Rhuddlan, Denbigh, Ruthin, Corwen and Llangollen.

There are already cameras in Rhyl and Prestatyn but, according to Councillor Edwards, coverage for the rest of the Vale of Clwyd is long overdue.

The new cameras would be monitored from a new, upgraded control room in

Rhyl and provide high quality pictures that could be used as evidence in crime cases.

"The benefits of CCTV are well documented as a powerful part of the armoury in the fight against crime and anti-social behaviour," said Councillor Edwards.

"Unfortunately, the Vale of Clwyd is not immune to the ills of modern society and CCTV would be a big help to the police in covering such a large area.

"CCTV cameras also provide reassurance to the public which is extremely important as the figures show clearly that crime is going down in North Wales. I feel certain that a network of CCTV cameras will help set people's minds at rest."

Gosod camerâu yn y Dyffryn

Dylai pobl Sir Ddinbych deimlo'n saffach yn y dyfodol diolch i ymgyrch i gael 38 o gamerâu teledu cylch cyfyng newydd i'r ardal.

"Dw i'n awyddus i bobl, yn enwedig yr henoed, deimlo'n saff yn eu cartrefi fin nos," meddai'r Cynghorydd Elwyn Edwards, Is Gadeirydd Awdurdod Heddlu'r Gogledd.

Mae wedi cyflwyno cais o £1.5 miliwn i Gyngor Sir Dinbych am gamerâu newydd yn Nyffryn Clwyd - yn Llanellwyr, Rhuddlan, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen. Mae rhai yn y Rhyl a Phrestatyn eisoes.

"Mae teledu cylch cyfyng yn arf pwysig yn y frwydr yn erbyn troseddau ac ymddygiad gwrth gymdeithasol," meddai'r Cynghorydd Edwards. "Mae'r camerâu hefyd yn gysur i'r cyhoedd, ac mae hynny'n bwysig dros ben.

"Er bod ffigyrau troseddau yn lleihau yn y Gogledd, mae pobl dal i ofni ac mi fydd y camerâu yma'n tawelu meddyliau."

New orders bring peace to the streets

New police powers have been used twice in the Wrexham area to disperse youths congregating outside shops.

"Local people were frightened of going to the shops in Darby Road, Brynteg because a dozen or so youths were regularly gathering outside," said Inspector Mark Chesters from Wrexham area.

There had been complaints from both businesses and other residents about intimidation, noise nuisance, litter, graffiti and minor disturbances.

The new dispersal orders give officers the right to disperse groups of two or more people who congregate in identified trouble spots and, in Brynteg, they have been a success.

"We applied for dispersal orders which ran for two periods of four months and they were an effective way of dealing with the problem," said Mark Chesters.

"We had to make a few arrests during the first few days but then they stopped gathering so often or would walk away if we were called to the area."

If anyone in the group is from outside the area, they can be told to leave the locality and ordered not to return for a given period of up to twenty four hours.

Anyone failing to comply with instructions to disperse or not to return to an area can be arrested.

"We are listening to the concerns of residents who tell us they are fed up of their lives being blighted by large groups of young people," said Chief Superintendent Phill Thomson.

"We will use whatever powers we can to ensure that people are able to live their lives in peace."

Pwerau newydd i glirio gangiau

Defnyddiwyd pwerau newydd yn ardal Wrecsam i wasgaru pobl ifanc oedd yn casglu y tu allan i siopau ac yn creu cynnwrf.

Ar ôl i fusnesau a thrigolion lleol gwyno am y gangiau y tu allan i siopau ym mhentre' Brynteg, mi ddefnyddiodd yr heddlu orchymnion gwasgaru i'w clirio.

Ar ôl gorfod arestio un neu ddau yn nyddiau cynnar y drefn newydd, mae'r bobl ifanc ers hynny wedi cadw draw neu gilio ohonyn nhw'u hunain pan fydd heddlu'n dod.

"Fe wnaethon ni gais am orchymnion gwasgaru ar gyfer dau gyfnod o tua pedwar mis yr un ac roedden nhw'n arf defnyddiol iawn wrth i ni ddelio â phroblem sy'n cael ei hachosi gan leiafrif bychan," meddai'r Arolygydd Mark Chesters.

Mae'r gorchymnion yn rhoi'r hawl i heddlu wasgaru dau neu ragor o bobl sy'n casglu mewn mannau lle bydd hylent ac yn rhoi'r grym iddyn nhw anfon pobl ddieithr o'r ardal am hyd at bedair awr ar hugain.

Ymyrryd i dorri arfer

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n rhan o gynllun newydd i ddelio â phobl sy'n camddefnyddio cyffuriau a'u helpu ar ôl iddyn nhw gael eu cosbi.

Mae'r Rhaglen Ymyrryd Mewn Cyffuriau yn ceisio torri'r cysylltiad rhwng cymryd cyffuriau a throseddau eraill.

Mi gafodd y rhaglen, sydd werth £1.04 miliwn tros dair blynedd, ei lansio yn Llandudno gan Edwina Hart, Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad tros Gyfiawnder Cymdeithasol.

"Mi fydd yn caniatáu i gamddefnyddwyr cyffuriau gael gafael ar nifer o wasanaethau i'w helpu i roi'r gorau iddi," meddai Prif

Gwnstabl Heddlu'r Gogledd, Richard Brunstrom.

"Mi fydd hynny'n torri ar y troseddau oedd eu hangen i gynnal yr arfer. Rhaglen i atal troseddau ydi hon yn anad dim. Mae llai o droseddau'n golygu llai o ddiroddwyr."

"Gofal cyflawn" yw'r disgrifiad o'r hyn sy'n cael eu cynnig gan ddefnyddio timau o bobl o wahanol wasanaethau ar draws Gogledd Cymru i gydweithio.

Bydd pob achos yn cael ei drafod yn unigol ac fe allai'r gwasanaethau gynnwys cymorth a chyngor gyda thai, rheoli arian, problemau teulu neu gael sgiliau newydd.

Breaking habits, tackling crime

North Wales Police are part of a new partnership which will tackle drug abusers who commit crimes to support their habit, and then help them keep out of trouble.

The North Wales Drug Intervention Programme, which is worth £1.04 million over three years was launched at Llandudno by the Welsh Assembly Government's Minister for Social Justice, Edwina Hart.

The programme is aimed at helping abusers from the point of arrest, through the courts and afterwards – including advice and support on such matters as housing, finance, family issues and employment..

"The programme will allow drug misusing individuals to abstain from drug misuse and thereby reduce the crime required to feed a drug habit," said North Wales Police Chief Constable, Richard Brunstrom.

"This is first and foremost a crime reduction initiative. One less crime is one less victim."

Get to grips with e-crime

North Wales Police are appealing for businesses to help themselves by tackling one of the newest forms of lawbreaking – e-crime.

"Everyone can take active steps and measures to protect themselves from on-line criminals," said Detective Superintendent Chris Corcoran from North Wales Police, who is Chair of the All Wales Hi-Tech Crime Steering Group.

"Learning to close doors and windows to stop criminals from getting in is just as relevant to electronic security as to securing your home."

He was speaking after an All-Wales E-Crime Manifesto and

Action Plan was presented to more than 200 delegates at a national conference at Llangollen at the end of January.

E-crime is a massive threat to businesses, especially to small and medium-sized enterprises – it can include fraud, malicious damage and the ruining of customer and supplier relationships.

"E-crime can have a devastating impact on all forms of business activity," said Andrew Davies, Minister for Economic Development and Transport. "It is therefore important that we take prompt and effective action to protect businesses."

These actions include education and e-security training for business advisors.

Gwe-ithredwch yn erbyn troseddwyr!

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn annog busnesau ac unigolion i warchod eu hunain yn erbyn troseddwyr ar y we.

"Gall pawb wneud rhywbeth i'w gwarchod eu hunain - yn union fel yr yden ni'n cau drysau a ffenestri yn ein tai," meddai'r Ditectif Uwcharolygydd Chris Corcoran o Heddlu'r Gogledd ar ôl cynhadledd arbennig yn Llangollen.


Fo ydy Cadeirydd y Grŵp Llywio Cymru Gyfan ar E-droseddau, sydd newydd gyhoeddi cynllun gweithredu i dactlo'r broblem. Mae hynny'n cynnwys addysg a hyfforddiant.

"Mae e-droseddau'n gallu cael effaith ddychrynlyd ar bob math o fusnesau," meddai'r Gweinidog tros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, Andrew Davies.



Bully behind bars

In January this year, a bully who thrived on intimidating the people of Rhyl was sent to prison for five and a half years, to the delight of the police and the relief of local people. Y Glas talks to two who led the investigation – Superintendent Barry Jones and Detective Superintendent Chris Corcoran – about how they finally put Gizzi and his associate behind bars.



John Damon Gizzi

John Damon Gizzi lived like a millionaire and thought himself above the law until North Wales Police's dedicated team of detectives embarked on Operation Hawthorn.

The 34 year old had lived in Rhyl for many years. For ten years, the police were aware that he was engaged in criminal activities including violence and intimidation and were determined to bring him to book.

Gizzi lived in a £1.5 million mansion, Bronhwylfa Hall in St. Asaph. He drove a £100,000 limousine, owned three other cars and yet his business officially made just £16,000 a year.

Until last year, the illegal property owner managed to avoid prosecution by threatening and frightening off potential witnesses. And



then North Wales Police decided to make him a major target and two local men had the courage to stand up against him.

"I can only describe him as a leech, living off individuals, and a bully who surrounded himself with people of a similar ilk, preying on the weak, the homeless and the defenceless," said Detective Superintendent Chris Corcoran.

"People simply would not come to court," he explained. "They were too frightened to give evidence."

When Superintendent Barry Jones joined Central Division last April he was shocked by the impact Gizzi was having on the community in Rhyl and decided to build on the work already done by police.

"He was living like a crime overlord," said Barry Jones. "People were living in fear of him but the police had done a lot of work in gaining the confidence of people who were being affected."

Two months earlier, in February 2005, North Wales Police had launched Operation Hawthorn which concentrated on Gizzi and his close associates.

The property owner had 28 houses in Rhyl and Prestatyn but police found that all the mortgages had been obtained illegally.

They installed a listening device in Gizzi's car

Marwolaeth mewn sawl iaith Clod i'r heddlu am ddelio'n ddoeth

Pan gafodd dyn ifanc ei drywanu i farwolaeth yn Llangefni, dechreuodd ymchwiliad cymhleth oedd yn sawl iaith dramor a sawl taith i Wlad Pwyl.

Roedd Zbigniew Okon wedi dod draw o Wlad Pwyl i weithio yn y diwydiant cig ar Ynys Môn. Ac yno y byddai farw.

Roedd Zbigniew yn 24 oed, yn unig fab i deulu tlawd o Lodz ac yn un o filoedd o bobl o Ddwyrain Ewrop sydd bellach yn byw yng Ngogledd Cymru.

Ar noson y 12fed o Chwefror, 2005, cafodd yr heddlu eu galw i'r tŷ yn Llangefni, lle'r oedd yn byw gyda thri dyn o Lithwania, Latfia ac Estonia ac un o Bortiwgal, o'r enw Danilo Furtado.

Er gwaetha' ymdrechion y gwasanaethau brys a phobl leol, mi fuodd Zbigniew farw o anafiadau cylllell i'w frest. Roedd yn ddechrau ar ymchwiliad hir a chymhleth, dan arweiniad y Ditectif Uwch Arolygwr John Clayton.

Yn y diwedd, mi fyddai'r plismyn yn cael eu canmol gan y Barnwr am eu gwaith trwyadl, manwl ac am eu sensitifrwydd.

Mi ddaeth yn amlwg fod Furtado wedi gwylltio am fod cerddoriaeth yn cael ei chwarae yn y tŷ; aeth i nôl cylllell a, phan geisiodd Zbigniew Okon ei dawelu, cafodd hwnnw'i drywanu yn ei galon.

Arestiodd Furtado yn syth, ond roedd rhaid galw am help cyfieithwyr proffesiynol o Brifysgol Bangor er mwyn holi'r tystion.

"Roedd y cyfweiliadau'n digwydd drwy'r cyfieithwyr ac roedd rhaid paratoi dogfennau a'u cyfieithu a hynny mewn amser byr iawn," meddai John Clayton.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid cyhuddo person o drosedd o fewn 24 awr i'w arestio. Oherwydd y problemau iaith, caniatodd y llys i'r amser gael ei ymestyn ddwywaith.

Yr efen fawr arall yn y gwaith oedd gofalu am deulu Zbigniew. Fel ym mhob achos o'r fath, cafodd Swyddog Cyswllt Teulu ei benodi, y tro yma, y

Cafodd y plismyn eu canmol am eu gwaith trwyadl, manwl ac am eu ffordd sentsitif a chyfrifol o ddelio efo pobl o ddiwylliannau eraill.

Ditectif Gwnstabl Dave Honan.

Pan ddaeth chwirydd Zbigniew i Gymru i adnabod y corff, aeth Dave Honan a John Clayton yn ôl i Wlad Pwyl efo nhw i egluro i'r teulu beth oedd yn digwydd ac i'w cefnogi yn eu galar.

"Roedd yn brofiad emosiynol iawn," meddai Dave Honan. "Roedd

y teulu'n delio â'u galar efo urddas ac yn llawn croeso. Roedd yn ddechrau ar gyfeillgarwch sy'n parhau ac mi fuodd rhaid mynd i Bwyl sawl tro ar adegau tyngedfennol.

"Mae'r ymchwiliad yma'n dangos fod llawer mwy yn gyffredin nag yn wahanol rhwng pobl Cymru a Dwyrain Ewrop. Mae galar yr un peth yn Llangefni a Lodz.

"Mae hefyd yn dangos ein bod am gynnig gwasanaeth o'r safon uchaf i'r amrywiaeth cynyddol o grwpiau diwylliannol yng Ngogledd Cymru."

"Roedd o'n brofiad wna i byth anghofio," meddai John Clayton. "Doedd ganddyn nhw'r un gair o Saesneg a fawr o bres. Roedd nhw'n bobl hynaws iawn ac wrth gwrs mewn sioc ynglŷn â'r hyn oedd wedi digwydd."

Mewn achos llys yn yr Wyddgrug yn Hydref 2005 cafwyd Danilo

Zbigniew Okon




Furtado yn euog o ddynladdiad a'i anfon i garchar am saith mlynedd.

Rai wythnosau wedyn daeth neges gan deulu Zbigniew yn diolch o galon i'r Heddlu am eu gwaith.

"Ro'n i'n falch iawn o dderbyn y neges honno," meddai John Clayton. "Roedd yn brofiad wna' i byth ei anghofio."

Carcharu bwli'r Rhyl



Dennis Elliott
Fontenot

Ymgyrch fawr gan yr heddlu a dewrder dau ddyn lleol a lwyddodd i roi bwli diegwyddor yn y carchar. Dyma'r stori ...

Roedd John Damon Gizzi yn byw fel miliwnydd ac yn brolio na fyddai'n mynd i'r carchar fyth – roedd yn anghywir.

Pan benderfynodd Heddlu Gogledd Cymru lawnsio Cyrch y Ddraenen Wen, a phan ddaeth dau dyst gerbron i gynnig tystiolaeth, roedd ei ddyddiau o droseddau ar ben.

Roedd Gizzi, sy'n 34 oed, wedi byw yn Y Rhyl ers sawl blwyddyn ac, am y deng mlynedd diwetha', roedd yr heddlu'n ymwybodol ei fod yn cyflawni troseddau gan gynnwys trais a bygwth.

Er mai dim ond elw bach yr oedd ei fusnes swyddogol yn ei wneud, roedd yn berchen ar dŷ gwerth £1.5 miliwn a char gwerth £100,000.

Er gwaetha' ymdrechion yr heddlu, roedd Gizzi yn cadw'i draed yn rhydd trwy godi ofn ar bobol.

"Gelen oedd o, yn byw ar gefnau pobol eraill a bwli oedd yn amgylchynu ei hun efo pobol debyg gan boenydio'r gwan, y digartref neu'r diymgeledd," meddai'r Ditectif Uwch Arolygydd Chris Corcoran, un o arweinwyr y cyrch.

"Doedd pobl ddim yn fodlon mynd i'r llys," eglurodd. "Roedden nhw'n rhy ofnus i roi tystiolaeth."

Pan ymunodd yr Uwch Arolygydd Barry Jones â'r Rhanbarth Canolog, fe gafodd ei synnu gan yr effaith yr oedd Gizzi yn ei gael ar fywyd pobol Y Rhyl.

"Roedd pobl yn byw mewn ofn ohono ond roedd yr heddlu wedi gwneud llawer o waith yn barod."

Ddeufis ynghynt, yn Chwefror 2005, roedd Cyrch y Ddraenen Wen wedi

dechrau, gan ganolbwyntio ar Gizzi a'i bartneriaid. Fe sylweddolod nhw:

Fod gan Gizzi 28 o dai yn Y Rhyl a Phrestatyn ond fod ei holl forgeisi wedi'u cael trwy dwyll.

Ei fod yn prynu a gwerthu sigarennau ffug ac anghyfreithlon.

Ei fod yn ymosod yn dreisgar ar nifer fawr o bobol.

Daeth newyddion da pan fu dau o'r rheiny'n ddigon dewr i roi tystiolaeth yn ei erbyn – dau ddyn digartref oedd wedi dioddef dan law Gizzi.

Yn y diwedd, doedd gan Gizzi ddim dewis ond pledio'n euog i dri chyhuddiad o ymosodiad difrifol a throseddau eraill yn cynnwys cynllwynio i werthu sigarennau ffug ac osgoi talu tollau a 22 trosedd o gael morgais drwy dwyll.

Cafodd Gizzi ddedfryd o bum mlynedd a hanner yn y carchar a'i bartner, Dennis Elliot Fontenot o Lerpwl, yn cael carchar am flwyddyn a hanner. Roedd yn neges glir nad oes unrhyw berson uwchlaw'r gyfraith yn y Gogledd.

"Gweithiodd y tim ditectifs yn galed iawn," meddai'r Uwch Arolygydd Barry Jones, sy'n gofalu am weithrediaidau yn siroedd Dinbych a Chonwy.

"Roedd y cyrch yma'n rhan o'n hymrwymiad i wneud y Gogledd yn le saffach i fyw ynddo. Mae tynnu Gizzi o'r Rhyl eisoes yn gwneud gwahaniaeth mawr."

